Kirsty Williams AS

Y Gweinidog Addysg

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Kirsty,

**Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar gyfer y Pumed Senedd**

Wrth i 2020 dynnu at ei therfyn, mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wrthi'n paratoi ar gyfer 2021 ac yn cynnal archwiliad o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y Pumed Senedd.

Mae wedi bod yn gyfnod prysur a chynhyrchiol i'r Pwyllgor a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, yn enwedig o ystyried yr heriau sylweddol yn sgil pandemig COVID-19 eleni.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried materion Etifeddiaeth, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael diweddariad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cynnydd a wnaed mewn cysylltiad ag argymhellion yr adroddiad a ganlyn:

**Addysgu Hanes Cymru**

A allwch chi roi adroddiad cynnydd ar gamau yn erbyn pob un o'r saith argymhelliad a dderbyniwyd, neu y cawsant eu derbyn mewn egwyddor? Yn benodol, mae'r Aelodau'n awyddus i wybod beth yw'r cynnydd a wnaed ynghylch adolygiad thematig Estyn ar addysgu hanes Cymru mewn ysgolion.

Yn ôl yr ail argymhelliad yn yr adroddiad: 'Dylai'r Cwricwlwm i Gymru 2022 gynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes.' Yn eich ymateb, gwnaethoch egluro, er bod yr argymhelliad hwn wedi'i wrthod, 'Bydd canllawiau'r cwricwlwm hefyd yn glir ar ba mor bwysig ydyw i gwricwla ysgolion adlewyrchu Cymru, ei threftadaeth ddiwylliannol a'i hamrywiaeth, ynghyd a gwerthoedd, hanes a thraddodiadau ein cymunedau a'n pobl.'

A wnewch chi roi mwy o fanylion – gydag enghreifftiau – o'r modd sut y bydd y canllawiau'n cyflawni'r bwriad i 'adlewyrchu Cymru, ei threftadaeth ddiwylliannol a'i hamrywiaeth, ynghyd a gwerthoedd, hanes a thraddodiadau ein cymunedau a'n pobl' pan fydd y cwricwlwm newydd yn cael ei addysgu i ddisgyblion?

**Taro'r Tant Ymchwiliad i ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati**

Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad cyntaf i drosglwyddo cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cerdd i gorff cenedlaethol, hyd braich, fe wnaethoch chi gomisiynu'r **Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerdd** a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 16 Ionawr 2020. At hynny, rydych chi wedi rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn yr holl argymhellion o'r adroddiad yn eich llythyr ar 3 Tachwedd 2020, gan gynnwys y ffaith bod y canllawiau gweithredol ar gyfer addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion wedi'u hadolygu, o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar weithgareddau cerddoriaeth.

A wnewch chi roi gwybod i mi a yw grŵp ymgynghori'r rhanddeiliaid gwasanaethau cerddoriaeth wedi gallu cyfarfod i ystyried awgrym adroddiad yr astudiaeth ddichonoldeb, sef cyflwyno Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysgu Cerddoriaeth, a materion eraill a godwyd yn adroddiad yr astudiaeth ddichonoldeb? Os felly, a allwch chi roi crynodeb o'r drafodaeth ac unrhyw gamau y cytunwyd arnynt?

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael diweddariad cyn gynted ag y bo modd, a heb fod yn hwyrach na dydd Mawrth 9 Chwefror 2021.

Yn gywir

Helen Mary Jones

**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

*We welcome correspondence in Welsh or English.*